
# Ysbaddu – cynllunio teulu ar gyfer cathod



CATS PROTECTION

CANLAW HANFODOL 6

Mae Cats Protection o'r farn ei bod yn hanfodol i berchenogion cyfrifol gael ysbaddu eu cath cyn iddi allu magu. Mae cathod yn fridwyr effeithiol iawn, ac maen nhw'n cael mwy o gathod bach os oes mwy o fwyd a gwell cysgod ar gael. Heb gael eu hysbaddu, gall poblogaeth cathod y DU fynd allan o reolaeth yn gyflym. Peidiwch â gwneud bywyd yn anoddach fyth i'r miloedd o gathod sydd eisoes wedi'u gwrthod. Mae gorboblogi yn cynyddu afiechydon heintus ac afiechydon sy'n gysylltiedig â straen ymhlith cathod, yn cynyddu gwrthdaro rhwng cathod, ac yn peryglu eu lles.

# Beth yw ysbaddu?

Llawdriniaeth sy'n atal cathod benyw rhag mynd yn feichiog, ac sy'n atal cathod gwryw – gwrcathod – rhag gwneud cathod benyw yn feichiog.

- Mae cath fenyw yn cael tynnu ei chroth (wterws) ac wygelloedd
- Mae gwrcath yn cael tynnu ei geilliau

Mae Cats Protection fel arfer yn argymell y dylai cathod bach sydd oddeutu **pedwar mis oed neu iau** gael eu hysbaddu **– ond mae modd ysbaddu eich cath ar unrhyw oedran**. Ysbaddu yw'r ffordd orau o ymdrin â beichiogrwydd sydd heb ei gynllunio, trwy osgoi'r broblem yn y lle cyntaf. Mae ysbaddu hefyd yn atal rhai canserau a heintiau, ac yn golygu bod y cathod yn crwydro, ymladd ac ysgeintio llai.

# Pa bryd y dylid ysbaddu?

Yn draddodiadol, roedd cathod yn cael eu hysbaddu o'r adeg yr oeddent yn chwe mis oed. Er hynny, mae data gwyddonol ar hyn o bryd yn dangos nad oes unrhyw anfanteision mewn ysbaddu cathod yn iau – er enghraifft, o wyth wythnos oed ymlaen. Gan y gall cathod bach gyrraedd aeddfedrwydd rhywiol a magu yn bedwar mis oed, mae Cats Protection yn argymell yn gyffredinol y dylid ysbaddu cathod bach sydd oddeutu pedwar mis oed neu iau.

# Pam ysbaddu?

Yn ogystal â helpu i leihau nifer y cathod nad oes ar neb eu heisiau yn y DU, mae hefyd yn cyflwyno llawer o fuddiannau iechyd.

**Mae gwrcathod 'cyflawn' – heb eu hysbaddu:**

- yn fwy tebygol o gael eu hanafu neu ddal heintiau wrth ymladd, gan arwain at boen a biliau milfeddyg
- yn teithio filltiroedd lawer yn rheolaidd i chwilio am gathod benyw heb eu hysbaddu, gan wynebu'r perygl o ddamweiniau ffyrdd ac anafiadau, a pheri i chi golli'r cysylltiad o fod â chath anwes
- yn ysgeintio wrin drewllyd i farcio eu tiriogaeth a denu cathod benyw
- mewn perygl o gael tyfiannau ar y ceilliau
- yn annhebygol o fod yn well helwyr na chathod heb eu hysbaddu, gan nad yw hela'n ymddygiad rhywiol
- yn gallu profi lefel uchel o straen sy'n debyg i rwystredigaeth os nad ydynt yn gallu dod o hyd i bartner

**Ar y llaw arall, mae gwrcathod sydd wedi'u hysbaddu:**

- yn llai tebygol o grwydro, sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o gael damweiniau ffyrdd
- yn llai tebygol o ymladd, sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o gael eu hanafu neu o ddal heintiau difrifol fel Feirws Diffyg Imiwnedd Cathod (FIV) neu Feirws Lewcemia Cathod (FeLV)
- yn llai tebygol o ysgeintio
- yn well anifeiliaid anwes ac yn fwy tebygol o hoffi aros gartref; a hefyd
- nid oes modd iddynt ddatblygu tyfiannau ar y ceilliau

**Mae cathod benyw cyflawn – heb eu hysbaddu:**

- yn aml yn beichiogi'n bedwar mis oed
- yn cael torllwythi o gathod bach dair gwaith y flwyddyn yn aml. Mae hyn yn ychwanegu at y broblem o orboblogi ac yn costio mwy i'r perchennog, yn enwedig os oes unrhyw gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd neu enedigaeth
- yn galw ac yn nadu bob tair wythnos yn ystod y tymor magu – mis Ionawr hyd at fis Awst – er mwyn denu partner, nes iddynt feichiogi
- yn fwy tebygol o ddal clefydau sy'n cael eu lledaenu trwy gysylltiad rhywiol neu wrth baru
- mewn perygl o ganserau ar yr wygelloedd, y groth a'r chwarennau llaeth, yn ogystal â datblygu pyometra, sef haint difrifol ar y groth

**Ar y llaw arall, mae cathod benyw sydd wedi'u hysbaddu:**

- yn llai tebygol o ddal heintiau fel Feirws Diffyg Imiwnedd Cathod neu Feirws Lewcemia Cathod sy'n cael eu lledaenu trwy frathiadau ac wrth baru; a hefyd
- ni fyddant yn beichiogi, ac o ganlyniad, ni fydd unrhyw gostau yn sgil torllwythi o gathod bach
- nid ydynt yn galw ac yn nadu fel cathod benyw heb eu hysbaddu, sy'n golygu gwell cwsg i'r perchennog a'r cymdogion!
- nid ydynt yn gallu datblygu canser ar yr wygelloedd na'r groth. Mae eu risg o ddatblygu canser ar y chwarennau llaeth hefyd lawer yn is – yn enwedig os ydynt yn cael eu hysbaddu'n gynnar

**Mae'r cathod bach sydd heb gael eu cynllunio:**

- yn gallu fod mewn perygl o ddal heintiau
- yn ddrud i'w cadw a darparu gofal milfeddygol iddynt – llawer mwy nag mae rhywun yn debygol o'i gael yn ôl trwy geisio'u gwerthu mewn marchnad lle y mae digonedd eisoes ar gael
- yn gallu dod yn ddigartref
- yn gallu amddifadu cath neu gath fach arall o gartref newydd gan nad oes digon o gartrefi ar gyfer pob un ohonyn nhw

Nid yw llawer o berchnogion yn gwybod pa gathod 'dieithr' y gallai eu hanifail anwes fod wedi paru â nhw, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwybod pa glefydau heintus marwol posibl y gallai'r gath fod wedi'u dal. Yn ogystal, gall tymer gwrcath effeithio ar ymddygiad unrhyw gathod bach. Trwy gymryd y risg o baru â chath ddieithr, gallai'r cathod bach sy'n cael eu geni fod yn anaddas fel anifeiliaid anwes i deuluoedd.

# Y llawdriniaeth

Bydd angen i'ch cath dreulio diwrnod yn y filfeddygfa. Bydd yn cael anesthetig cyffredinol, ac felly ni ddylech gynnig unrhyw fwyd iddi yn ystod yr oriau cyn y llawdriniaeth. Bydd eich milfeddyg yn rhoi gwybod i chi pa bryd y dylech chi fwydo'r gath. Mae'r llawdriniaeth ar gyfer cathod gwryw a benyw yn un syml iawn, a byddwch yn gallu gadael eich cath a'i chasglu ar yr un diwrnod, fel arfer.

Wedyn, bydd gan gath fenyw ddarn bach wedi'i eillio ar ei hochr neu ei bol – bydd y blew yn aildyfu mewn ychydig o wythnosau. Bydd ganddi bwythau hefyd, ac os nad yw'r rhain yn toddi, bydd y milfeddyg yn eu tynnu tua 10 niwrnod yn ddiweddarach.

Mae cathod yn wydn a stoicaidd iawn – yn llawer mwy na phobl – ac maent fel arfer yn gwella'n gyflym iawn o effaith y llawdriniaeth. Bydd eich milfeddyg yn rhoi gwybod i chi beth yw'r ffordd orau o ofalu am eich cath wrth iddi wella. Mae'n ymddangos bod cathod bach yn gwella hyd yn oed yn gyflymach na chathod yn eu llawn dwf. Bydd angen llawer llai o fwyd ar eich cath ar ôl ei hysbaddu oherwydd bod gan ei chorff lai o waith i'w wneud, ac felly, bydd angen i chi gadw llygad ar bwysau eich cath, o bosibl, a rhoi llai o fwyd iddi, rhag iddi fynd yn rhy dew. Bydd hyn hefyd yn arbed arian i chi!

# Faint y mae'n ei gostio?

Mae cost y llawdriniaeth yn amrywio yn ôl ble rydych chi'n byw. Rhwng £30 a £60 yw'r gost ar gyfartaledd ar gyfer gwrcath, a rhwng £40 ac £80 ar gyfartaledd ar gyfer cath fenyw. Bydd eich milfeddyg yn fodlon rhoi pris i chi cyn rhoi'r llawdriniaeth, ac rydym yn argymell y dylech ffonio nifer o filfeddygfeydd. Mae Cats Protection yn cynnig cymorth ariannol i berchnogion sy'n derbyn budd-daliadau neu sydd ar incwm isel, mewn rhai achosion. I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.cats.org.uk/neutering neu ffoniwch 03000 12 12 12.

# Dod o hyd i filfeddyg i ysbaddu eich cath

Er bod bron pob milfeddyg yn cynnig triniaeth ysbaddu, nid yw rhai'n cynnig ysbaddu cyn chwe mis, fel mater o drefn. Ond mae'r nifer yn cynyddu'n gyflym, diolch i gefnogaeth gan grwpiau fel y British Small Animal Veterinary Association (BSAVA). I ddod o hyd i filfeddygfa yn agos atoch chi sy'n cynnig ysbaddu'n gynharach, ewch i wefan Cats Protection yn www.cats.org.uk

Mae wedi bod yn arfer cyffredin i ysbaddu'n gynharach mewn sawl gwlad, gan gynnwys yr Unol Daleithiau ac Awstralia, am flynyddoedd lawer, ac mae wedi'i brofi i fod yn ddiogel ac effeithiol. Mae astudiaethau'n dangos nad oes unrhyw dystiolaeth o effeithiau negyddol tymor hir ar ddatblygiad nac ymddygiad. Mae technegau a chyffuriau gwell wedi golygu nad oes sail i bryderon blaenorol ynglŷn â risgiau llawdriniaeth, a theimlir bod cathod bach yn gwella o'r llawdriniaeth yn llawer cyflymach na chathod yn eu llawn dwf.

# Chwalu'r mythau ysbaddu

- Gall cathod ddechrau magu yn ddim ond pedwar mis oed
- Gellir ysbaddu cathod bach yn ddiogel cyn eu bod yn chwe mis oed
- Mae cathod yn magu'n rhwydd â'u brodyr, eu chwiorydd a'u rhieni
- Nid yw'n gwneud dim lles i gath gael un tymor neu 'ddim ond un torllwyth' cyn ei hysbaddu
- Mae cathod yn feichiog am ddim ond naw wythnos, a gall cath fenyw ddod i dymor eto ddim ond chwe wythnos ar ôl rhoi genedigaeth
- Gall cath yn rhwydd iawn gael hyd at dri thorllwyth y flwyddyn gyda phump neu chwech o gathod bach ym mhob un. Mae hynny'n golygu 18 o gartrefi gofalgar i Cats Protection ddod o hyd iddynt bob blwyddyn, a hynny ond ar gyfer cathod bach un gath! Mae'n rhoi llawer o straen ar y fam, a gall fod yn niweidiol iddi fagu ar y lefel hon
- Gall un gath heb ei hysbaddu fod yn gyfrifol am 20,000 o ddisgynyddion mewn dim ond pum mlynedd – mae cathod heb eu hysbaddu yn dda iawn am ddod o hyd i'w gilydd, ac mae beichiogrwydd heb ei gynllunio yn gyffredin iawn
- Nid yw cathod sydd wedi eu hysbaddu yn 'hiraethu' am eu horganau na chyfleoedd i atgenhedlu na magu torllwyth – nid pobl ydyn nhw!
- Gellir ysbaddu cath fenyw hyd yn oed os yw hi yn ei thymor, yn feichiog, neu'n llaetha, ac mae'n well i chi drafod hynny gyda'ch milfeddyg

Er bod y rhan fwyaf o berchnogion yn ysbaddu eu cathod, mae'n drist fod nifer fawr yn gadael i'w cathod fagu cyn cael eu hysbaddu, gan ychwanegu at y broblem o orboblogi a'r pwysau ar elusennau anifeiliaid ag adnoddau prin. Peidiwch â'i gadael hi'n rhy hwyr. Siaradwch â'ch milfeddyg, a threfnwch apwyntiad heddiw ar gyfer ysbaddu eich cath. Dylai fod o fudd i'ch cath, gallai atal eich cath rhag dioddef, a hwn yw'r peth pwysicaf y gallwch chi ei wneud i helpu cathod yn gyffredinol.

## Dysgwch fwy am eich cath ar-lein!

**Edrychwch ar ein pecyn rhyngweithiol rhad ac am ddim i'ch helpu i ddeall gwreiddiau cathod a'u hymddygiad yn ein cartrefi. http://learnonline.cats.org.uk/content/ufo**

## CANLLAWIAU HANFODOL

1 Gofalu am eich cath
2 Croeso adref
3 Symud tŷ
4 Bwydo a gordewdra
5 Cadw eich cath yn ddiogel
6 Ysbaddu – cynllunio teulu ar gyfer cathod
7 Pryd i ollwng eich gafael
8 Microslodion
9 Deall ymddygiad eich cath
10 Rheoli ymddygiad eich cath
11 Cathod sy'n byw gyda'i gilydd
12 Cathod y tŷ a'r awyr agored
13 Cathod a'r gyfraith
14 Cathod a phobl
15 Gofalu am eich cath fach
16 Cathod hŷn
17 Cathod gwyllt
18 Cathod beichiog, genedigaeth, a gofalu am gathod bach

## CANLLAWIAU MILFEDDYGOL

1 Llid y cymalau
2 Clefyd Gwaelod y Llwybr Wrinol (FLUTD)
3 Diabetes
4 Cathod coslyd a chlefydau'r croen
5 Parfofeirws Cathod (FPV)
6 Clefyd ar yr arennau
7 Cathod ag anableddau
8 Pwysedd gwaed uchel
9 Feirws Diffyg Imiwnedd Cathod (FIV) a Feirws Lewcemia Cathod (FeLV)
10 Coronafeirws Cathod (FcoV) a Pheritonitis Heintus Cathod (FIP)
11 Murmur y galon a chlefyd y galon
12 Hyperthyroidedd
13 Asthma cathod
14 Dannedd ac iechyd y geg
15 Chwain a pharasitiaid eraill
16 Ffliw cathod
17 Clefydau Heintus a Brechu
18 Anhwylderau treulio – chwydu a dolur rhydd
19 Chi a'ch milfeddyg
20 Cathod a menywod beichiog – Tocsoplasmosis

CATS PROTECTION

**I gael mwy o wybodaeth am Cats Protection neu i roi rhodd, ewch i www.cats.org.uk neu ffoniwch ein Llinell Gymorth ar 03000 12 12 12.**

Elusen Gofrestredig 203644 (Cymru a Lloegr) ac SC037711 (Yr Alban)

SEPT-13 CODE: **84006**